# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 07 Ionawr 2020
am 8.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Ann Tudor, Caredig Jones, Dewi Rattray, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, Dylan Edwards, Richard Davies, Meiron Davies**

**ABSENOLDEBAU: John Davies**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod 1st 2020 gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Dachraeodd y cyfarfod 8.00pm. Darllenwyd cofnodion Mis Rhagfyrn gan y clerc a cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Dylan Edwards ac fe eiliwyd gan y Cyng Ann Tudor.

20/001 - MATERION YN CODI

1. Ymated wrth y Cyngor Sir ynglyn a help tuag at broblem baw cwn yn y pentref. Yn anfodus, nid oed unrhyw offer rhad ar gael, ond mae'n bosib i'r cyngor cymuned archebu biniau baw cwn wrth y Cyngor Sir yn uniongyrchol am gost o £150, ac yna fydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am gwaghau y biniau. Ar ol trafod, pernderfynnwyd fydd yn syniad I rhoi y bin ar ben rhiw Cwm Aur. Cynnigwyd gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytun.

20/002 - LLYTHYRON

1. Llythyr wrth yr adran priffyrdd yn nodi fford ar gau; C1040 Llanilar rhwng 08.00am – 18:00pm 13.01.2020.
2. Negesaeon Un llais cymru.

20/003 – ARIANNOL

Codwyd i sylw'r cyngor gan y Clerc fod cyfrif banc y cyngor wedi'i gau. Roedd hyn oherwydd i'r tîm diogelu yn HSBC gau'r cyfrif gan eu bod yn aros i'r clerc ddiweddaru manylion y cyfrif ar 'y porth ar lein' ar ôl cadarnhau eisoes 'dim newidiadau' yn flaenorol ar dros y ffôn. Yn anffodus, nid oeddent wedi darparu cod mynediad a dolen i'r porth trwy e-bost fel y dwedwyd ar 3 x achlysur ac ni roddwyd cadarnhad dros gau'r cyfrif. Ar ôl sylweddoli ganol mis Rhagfyr bod problem gyda'r cyfrif (gan nad oedd sieciau cyflog y clerc wedi clirio), cysylltwyd â HSBC a chodwyd pryderon. Codwyd cwyn a dywedwyd wrth y clerc y byddai'r tîm diogelu yn delio â hyn gan fod eu proses gwynion yn wahanol i'r adran bancio gyffredinol/busnes. Ar ôl adolygu, fe wnaethant gynghori nad oeddent yn gallu ailagor y cyfrif yn anffodus, fodd bynnag roeddent yn fwy na pharod inni agor cyfrif newydd eto o dan yr amgylchiadau. Nid oes cyfleusterau bancio busnes yn gangen banc Aberystwyth, felly byddai angen cyflwyno cais ar-lein. Cytunwyd y byddai'r un manylion a llofnodwyr yn cael eu defnyddio ar y cais newydd gan fod y banc wedi cynghori y byddai hyn yn debygol o gyflymu'r proses. Ymddiheurodd y clerc i aelodau'r cyngor a dywedodd y cysylltid ag unrhyw dalwyr siec sy'n ddyledus ac esbonio'r sefyllfa iddynt.

Derbynwyd cais ariannol yma y mis yma;

1. Anfoneb Dan Owens ar gyfer torri'r fynwent 2019; £1275. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Caredig Jones. Bydd y taliad hwn yn cael ei brosesu unwaith y bydd y cyfrif newydd yn weithredol

20/004 – CYNLLUNIO
Cais wedi eu dderbyn ond nid yw'n rhan o Cylch Llanilar.

20/005 - UNRHYW FATER ARALL

1. Nodwyd fod y pot-hole ar ffordd Ffospompren yn gwaethygu; ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at yr adran priffyrdd ynglyn a hyn.
2. Nodwyd possibilrwydd o trefnu taith gerdded noddiedig arall eleni. Mi fydd y Cyng.Richard Davies yn edrych i mewn i hyn yn bellach.

Orffennwyd y gyfarfod am 8.40pm